| | |
|---|---|
| **Adrodd i'r** | **Pwyllgor Craffu Partneriaethau** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **7 Tachwedd 2024** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | **Y Cyng Elen Heaton, / Michael Reay Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Arbenigol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Ann Lloyd, Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaeth Digartrefedd** |
| **Awdur yr adroddiad** | **Nerys Tompsett, Rheolwr Tîm Diogelu** |
| **Teitl** | **Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Oedolion yn Sir Ddinbych 2023 - 2024** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi adroddiad perfformiad blynyddol ar Ddiogelu Oedolion ac mae'n darparu trosolwg o effaith trefniadau ac arferion diogelu lleol. Darparu trosolwg o Adroddiad Blynyddol 2023/2024 Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru i'r Pwyllgor Craffu (Atodiad 1).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi trosolwg i'r Aelodau o effaith trefniadau ac arferion Diogelu Lleol ac adolygu'r cynnydd a wnaed yn y maes gwaith allweddol hwn dros y deuddeg mis diwethaf. Darparu Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru i'r Pwyllgor Craffu, sy'n rhoi cyd-destun perfformiad Sir Ddinbych yn erbyn partneriaid eraill y Bwrdd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n derbyn ac yn rhoi sylwadau ar yr adroddiad a chydnabod pwysigrwydd ymagwedd gorfforaethol at ddiogelu oedolion mewn perygl a chyfrifoldeb y Cyngor i weld hyn fel maes blaenoriaeth allweddol.

# 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Dros y 12 mis diwethaf mae'r tîm Diogelu Oedolion wedi bod yn canolbwyntio ar ansawdd gwaith diogelu, gan gynnwys perfformiad yn erbyn dangosydd perfformiad Llywodraeth Cymru o ymholiadau'n cael eu cwblhau o fewn 7 diwrnod gwaith. Ar hyn o bryd, dyma'r unig Ddangosydd Perfformiad Cenedlaethol sy'n ymwneud â Diogelu Oedolion. Rydym yn parhau i gynnal ein perfformiad, gyda 98.5% o ymholiadau'n cael eu cwblhau o fewn y terfyn amser 7 diwrnod gwaith ar gyfer 2023/34, sydd wedi bod yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag,

**4.1.1** bu cynnydd yn y nifer cyffredinol o adroddiadau yn y cyfnod hwn, o'i gymharu â data llynedd, gyda phob un o'r 409 ymholiad diogelu'n cael eu gwneud dan a126 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Roedd hyn yn sicrhau bod Sir Ddinbych yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol, gan bennu bod unrhyw risgiau yn cael eu hadolygu, eu hystyried a bod camau gweithredu'n cael eu cymryd pan fo'r angen.

**4.1.2** Mae'r Tîm Diogelu'n gweithio'n agos gydag asiantaethau partner i sicrhau bod diogelu'n flaenoriaeth, gyda symiau mawr o ymholiadau'n dod o ddarparwyr a gweithwyr proffesiynol, sy'n ceisio cyngor neu ganllawiau mewn perthynas â materion diogelu. Caiff y galwadau hyn eu monitro i gefnogi dadansoddiad pellach o unrhyw themâu posibl neu dueddiadau a allai fod yn codi, a allai ofyn am ymagwedd ychwanegol i gefnogi unrhyw gamau gweithredu ehangach yn ymwneud â diogelu. (Gweler astudiaethau achos yn Atodiad 2).

**4.2** Adran 5: Atgyfeiriadau Unigolyn mewn Swydd ag Ymddiriedaeth.

**4.2.1** Mewn perthynas â phroses Adran 5: O ran *Cyhuddiadau/Pryderon am Ymarferwyr a*'r *Sawl mewn Swydd ag Ymddiriedaeth*, yn 2022 / 23 fe welwyd cynnydd o 84% (46) mewn atgyfeiriadau adran 5, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r patrwm hwnnw wedi parhau yn 2023 / 24, gan ddangos cynnydd o 65% (75), gydag atgyfeiriadau yn dod gan Ddarparwyr (43%), y Bwrdd Iechyd (33%), yr Awdurdod Lleol (17%) a'r Heddlu (9%).

**4.2.2** Mae trafodaethau strategaethau yn cael eu cynnal ar bob atgyfeiriad Adran 5 i bennu'r camau gweithredu nesaf h.y. cyfarfod trafod strategaeth a / neu gyfarfod strategaeth ffurfiol. Mae achosion sydd wedi eu huwchgyfeirio i gyfarfod

strategaeth ffurfiol yn arwain at ganlyniadau sy'n seiliedig ar gydbwysedd o debygolrwydd a oedd yr honiad wedi'i brofi, heb ei brofi, yn fwriadol, wedi'i ddyfeisio neu'n faleisus. (Gweler Atodiad 3)

**4.3** Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS).

**4.3.1** Bu cynnydd yn y nifer o geisiadau a dderbyniwyd: 563 (20%) o'i gymharu â 469 llynedd, sy'n ymddangos i fod yn adlewyrchu effeithiau yn ystod Covid, pan welwyd cynnydd o 26%. Yn 2022 / 23, cawsom gynnydd o 11. Gallai fod nifer o ffactorau sy'n dylanwadu ar y newidiadau hyn, er enghraifft, cartref gofal yn cau, ac wrth ganfod lleoliadau newydd ar gyfer preswylwyr, asesiadau DoLS newydd angen eu cwblhau, sy'n ymarfer safonol, ynghyd â'n dinasyddion mwyaf bregus yn cael anghenion mwy cymhleth, sydd yna'n arwain at DoLS.

**4.3.2** Mae 260 o Drefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid wedi cael eu cymeradwyo, sy'n gynnydd o 9% (238) ar llynedd. Mae asesiadau un ai'n cael eu cynnal yn bersonol, neu ar Teams / Zoom. Rydym wedi cynyddu'r nifer o reolwyr sy'n gallu cymryd rôl llofnodi DoLS, sydd wedi cyflymu'r broses. Mae cyllid grant Llywodraeth Cymru i gefnogi gwaith DoLS wedi ein galluogi i ychwanegu at y capasiti Aseswr Budd Pennaf o'r flwyddyn flaenorol, gyda'r gallu i gynnal asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.

**4.3.3** Gyda gweithrediad llawn Trefniadau Amddiffyn Rhyddid wedi'i ohirio, rydym yn aros i weld pa elfennau o'r Trefniadau fydd dal yn gymwys yn y 12 mis nesaf. Mae rôl Cynrychiolydd Unigolyn Cyfrifol wedi cael ei phasio i PBC, ac mae trafodaethau am y gweithrediad yn mynd rhagddynt.

**4.3.4** Mae 13 cais ychwanegol wedi cael eu cyflwyno i'r Llys, mewn perthynas â Cholli Rhyddid mewn Lleoliadau Domestig. Roedd 3 o'r rhain yn geisiadau newydd a 10 yn geisiadau i adnewyddu. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd mewn niferoedd o 7 yn 2022 / 23, ac y cyflwyno her oherwydd y lefel o waith ac amser sydd ei angen i gwblhau ceisiadau llys.

**4.4** Crynodeb o gyflawniadau allweddol ar gyfer 2023/24.

**4.4.1** Ar y cyfan mae yna ychydig o gynnydd 17.5% (409) wedi bod yn nifer yr adroddiadau Oedolion mewn Perygl a dderbyniwyd o'i gymharu â'r un cyfnod y

llynedd. Ar y cyfan, mae'r lefelau adrodd wedi bod yn gyson dros y 3 blynedd diwethaf, efallai mai dyna pam mae cynnydd eleni ychydig bach yn fwy amlwg. Er bod nifer yr adroddiadau wedi cynyddu o'i gymharu â llynedd, nid yw hyn wedi arwain at fwy o adroddiadau yn cael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd strategaeth. Yn 2022 / 23 fe welwyd 17% o adroddiadau Oedolion mewn Perygl yn mynd ymlaen i gyfarfod strategaeth, o'i gymharu â 15% eleni. Y prif reswm dros beidio cyflwyno adroddiad i gyfarfod strategaeth yw nad yw'r trothwyon yn cael eu bodloni h.y. nid yw'r dinesydd yn cael ei ystyried fel Oedolyn mewn Perygl, nid oes tystiolaeth pam roeddent yn profi camdriniaeth neu esgeulustod, neu angen rheoli risg hysbys o unrhyw berygl o gamdriniaeth / esgeulustod dan weithdrefnau diogelu.

**4.4.4** Cam-drin corfforol 35% (188) ac esgeulustod 34% (183) oedd y mathau mwyaf cyffredin o gamdriniaeth a nodwyd, a oedd yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol a thueddiadau cenedlaethol. Mae'n bwysig nodi, o edrych ar y data, gellir rhoi gwybod am fwy nag un categori o gamdriniaeth o fewn adroddiad diogelu. (Gweler Atodiad 3 i gael data diogelu 2023/24)

**4.4.5** Rydym wedi parhau i gwblhau archwiliadau o safon yn ystod 2023 / 24, gan samplo nifer o achosion diogelu i adolygu ansawdd a chysondeb y gwaith diogelu, a'r broses Swydd ag Ymddiriedaeth (Adran 5). Mae hyn yn darparu cyfle i ystyried ansawdd adroddiadau / atgyfeiriadau a dderbyniwyd, cyfranogiad gweithwyr proffesiynol, a'r cam gweithredu ar ddiogelu a gaiff ei gymryd mewn perthynas â'r risg a ganfyddir a sut y bydd y risgiau hyn yn cael eu rheoli wrth symud ymlaen. Mae'r archwiliadau hyn yn galluogi gwiriadau rheolaidd, ac adolygiadau o ymarfer, gan nodi arferion da a chyfleoedd i ddysgu.

**4.4.6** Mae'r gwaith yn parhau gyda'r Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Gweithwyr (GLAA), mewn perthynas â'r atgyfeiriad Caethwasiaeth Fodern a gyflwynwyd i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol sy'n ymwneud ag unigolion a oedd yn cael eu cyflogi gan gartref gofal yn Sir Ddinbych. Gweithredwyd y broses ddiogelu, a chafodd y sawl oedd yn datgan eu hunain fel dioddefwyr yn cael eu cefnogi gyda chamau diogelu. Mae'r archwiliad gan yr Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Gweithwyr a'r heddlu'n parhau ac ar ôl dod i ben rydym

yn bwriadu cynnal digwyddiad dysgu i nodi'r wybodaeth a'r sgiliau y gellir eu gweithredu eto os oes angen yn y dyfodol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

Mae trefniadau Diogelu Oedolion yn cyfrannu'n uniongyrchol i'r blaenoriaethau corfforaethol mewn perthynas â Sir Ddinbych iachach a hapusach, Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well a Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'r gwasanaeth hwn eisoes yn cael ei gynnwys o fewn cyllidebau presennol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les gan nad yw'r adroddiad yn gwneud newidiadau i'r polisi.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Amherthnasol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

**10.1** Mae prosesau Adran 5 yn parhau i fod yn her mewn sawl maes, ond yn benodol mewn perthynas ag arferion gwael yn erbyn camdriniaeth/esgeulustod, ac ati. Mae ymgynghoriad o adolygiad drafft o weithdrefnau Adran 5 nawr yn cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru, a gobeithir y bydd y gweithdrefnau newydd yn darparu dull mwy cadarn o weithio er mwyn mynd i'r afael â'r sawl mewn Swydd ag Ymddiriedaeth.

**10.2** Cafodd cyflwyniad Trefniadau Amddiffyn Rhyddid ei gohirio gan y Llywodraeth flaenorol; mae'n parhau i fod yn aneglur beth fydd yn digwydd wrth symud ymlaen. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i archwilio'r ffyrdd gorau o ymateb i bwysau lleol,

drwy ddatblygu hyfforddiant gloywi ar gyfer ABG neu edrych ar ganfod darparwr newydd ar gyfer y modiwl AGB.

**10.3** Mae achosion llys yn parhau i gynyddu, gan effeithio ar gapasiti ein timau gweithredol a chyfreithiol. Mae atgyfeiriad DiDS fel arfer yn cymryd rhwng 9 a 12 mis, o ddyddiad y cais at gyhoeddi Gorchymyn. Rydym yn aml yn profi ceisiadau gan y Llysoedd i gyflwyno gwybodaeth ddiweddar oherwydd bod dogfennaeth wreiddiol wedi dod i ben wrth aros am ystyriaeth farnwrol e.e. cynlluniau gofal, sydd yna'n creu gwaith ychwanegol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfreithiol. Nid yw hyn yn benodol i Sir Ddinbych; mae pob Awdurdod Lleol yn profi'r oedi.

**10.4** Mae'r Tîm Diogelu Oedolion yn colli dau aelod o staff profiadol oherwydd ymddeoliadau yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ac rydym wedi gallu recriwtio Dirprwy Reolwr Tîm o'r tîm presennol. Rydym wedi gallu hysbysebu'r swyddi gwag yn gynt na'r arfer, ond bydd her wrth atynnu'r lefel gywir o brofiad a brwdfrydedd i weithio yn y swydd heriol ac arbenigol hon.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Caiff pwerau'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â'r mater hwn eu nodi yn Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7.4.2(b) o Gyfansoddiad y Cyngor.